

# Datganiad Cynaliadwyedd

## 2016

Glandŵr Cymru

The Canal & River Trust in Wales

Canal & River Trust




# Cynnwys


Rhagair 1

Ein Gweledigaeth ac Amdanom Ni 2

Arwain trwy esiampl 3

- Cymunedau
- Ein Heconomi
- Adnoddau Naturiol
- Yr Amgylchedd
- Y Cynllun Gwyrdd
- Lleihau Ynni
- Milltiredd cerbydau a theithio
- Ynni adnewyddadwy
- Lleihau gwastraff ac ailgylchu

# Rhagair

**Mae Canal & River Trust yn gofalu am gasgliad anhygoel o asedau diwylliannol a naturiol, gan eu dal nhw mewn ymddiriedolaeth i'r genedl.**

Mae'r asedau hyn yn cwmpasu 2,000 o filltiroedd o gamlesi, afonydd, dociau a chronfeydd dŵr sy'n cynnwys y trydydd casgliad mwyaf o adeiladau a strwythurau rhestredig yn y DU, gyda rhai ohonynt wedi'u lleoli yn un o bum Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae gennym hefyd 63 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dros 1,000 o safleoedd cadwraeth bywyd gwyllt a chasgliad ac archif y National Waterways Museum.

Mae bron i 20 miliwn o bobl yn ymweld â'n dyfrffyrdd bob blwyddyn i'w defnyddio nhw i hwylio, canŵio, beicio, cerdded neu i fyfyrio'n dawel.

Credwn fod y dyfrffyrdd byw hyn yn gweddnewid llefydd ac yn cyfoethogi bywydau. Yn ein gwaith, mae angen i ni sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y rhai sy'n mwynhau ein rhwydwaith ar hyn o bryd a'r gofynion y mae'n rhaid i ni eu bodloni i sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i'w mwynhau.

Rydym am gynnal rhwydwaith cynaliadwy o gamlesi ac afonydd sy'n newid o hyd ac a gydnabyddir fel trysorau cenedlaethol, hygyrch sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bawb.

Mae ein hymagwedd at gynaliadwyedd yn hyrwyddo rhagoriaeth a chydbwysedd mewn tri maes allweddol; cymunedau; yr economi a'r amgylchedd. Mae'n adeiladu ar ein Cynllun Gwyrdd, a ddatblygwyd gyntaf yn 2010, i ddefnyddio llai o'n hadnoddau naturiol. Ym mis Tachwedd 2014, dyfarnwyd Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon i Canal & River Trust, gan gydnabod ein hymdrechion i leihau ein hôl-troed carbon.



Er ein bod yn falch o'r cynnydd rydym ni wedi'i wneud hyd yma, nid ydym am laesu dwylo. Byddwn yn parhau i leihau ein heffaith bob dydd ar yr amgylchedd, gan gynnwys ein defnydd o adnoddau naturiol, ac yn ceisio cael effaith gadarnhaol lle bo hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, mae dyfodol y dyfrffyrdd yn ein gofal yn dibynnu ar sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i fywydau pobl o ddydd i ddydd a'r gydnabyddiaeth o'u gwerth gan y bobl rydym yn gweithio gyda nhw, megis cynllunwyr gwlad a thref, cynghorau, busnesau a llywodraeth ar bob lefel.

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos beth mae cynaliadwyedd yn ei olygu i ni a sut rydym yn bwriadu ei gyflawni.

**Richard Parry**
Prif Weithredwr – Canal & River Trust.



# Ein Gweledigaeth

## Dyfrffyrdd bywiol i harddu ein byd ac i lonni'r enaid.

# Beth mae cynaliadwyedd yn ei olygu i ni

Mae Glandŵr Cymru yn defnyddio datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol yn y ffordd rydym yn gweithredu a thyfu. I ni, ystyr datblygu cynaliadwy yw bodloni gofynion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd heddiw heb gyfaddawdu ag anghenion cenedlaethau yfory.

Mae'n bwysig i ni bod y tri maes hyn yn cael sylw cyfartal yn ein gweithgareddau ac wrth i ni gynllunio i'r dyfodol. Gyda'r egwyddor hon mewn cof, gallwn gyfrannu at lunio lleoedd a gwydnwch cymunedau nawr ac yn y dyfodol.



# Arwain trwy esiampl

**Fel Ymddiriedolaeth, mae gennym dri phryder cyffredinol mewn perthynas â chynaliadwyedd:**

1. **Beth yw ein heffaith ar gymunedau?**
2. **Beth yw ein heffaith ar yr amgylchedd?**
3. **Sut allwn ni reoli ein hasedau mewn ffordd gyfrifoll er mwyn sicrhau ein dyfodol ariannol?**

# Cymunedau

**Dim os bydd cymunedau ledled Cymru a Lloegr yn credu bod ein dyfrffyrdd yn berthnasol i'w bywydau heddiw ac i'r dyfodol y bydd modd iddynt oroesi yn y tymor hir. Rydym yn cynnal pob math o weithgareddau i hyrwyddo ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedau lleol.**

## Gwirfoddoli

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli o safon ar lannau'r camlesi ac yn ein swyddfeydd. Mae hyn yn gyfle i bobl wneud rhywbeth cadarnhaol, cyfarfod â ffrindiau newydd a dysgu sgiliau newydd wrth greu budd i'w hardal. Credwn fod hyn yn cynyddu'r ymdeimlad lleol o berchnogaeth ac yn helpu i sicrhau dyfodol ein dyfrffyrdd. Erbyn diwedd mis Mawrth 2015, roedd gwirfoddolwyr wedi rhoi 450,000 o oriau. Ni fyddai ein gwaith yn bosibl heb ein gwirfoddolwyr gwych sy'n hollbwysig i gynaliadwyedd ein rhwydwaith.

## Mabwysiadu

Mae cynlluniau mabwysiadu dyfrffordd wedi'u sefydlu i adeiladu ar awydd pobl i wneud gwahaniaeth i'w hardal leol. Mae'n galluogi grŵp neu grwpiau cymunedol i ofalu am ran o'u camlas leol. Fel arfer, rydym yn gofyn am ymrwymiad o ddiwrnod y mis o leiaf am 12 mis, ond nid ydym yn gofyn i grwpiau mabwysiadu weithio'n annibynnol na gwneud gwaith sydd fel arfer yn cael ei wneud gan staff proffesiynol Glandŵr Cymru. Roedd 120 o gynlluniau mabwysiadu ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2015.

## Addysg

Trwy ein rhaglen ddysgu, rydym yn gobeithio ysgogi ymgysylltiad gydol oes â'n camlesi a'n hafonydd. Mae rhaglen ddysgu Glandŵr Cymru, Fforwyr Glandŵr Cymru, wedi'i chynllunio'n arbennig i helpu plant i ddysgu mwy am hanes, daearyddiaeth a bywyd gwyllt lleol tra'n mwynhau ein hunain. Mae gwirfoddolwyr wedi cyrraedd 40,000 o blant y flwyddyn.



# Yr Economi

Rydym yn ennill incwm trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy ein portffolio gwaddol, sy'n cynnwys eiddo yn bennaf. Mae enillion cyfalaf yn cael eu hail-fuddsoddi i gynhyrchu incwm i'r dyfodol. Rydym yn gwneud ein gorau glas i wella mynediad i'r cyhoedd er mwyn denu ymwelwyr newydd i'r dyfrffyrdd, ochr yn ochr â hyrwyddo defnydd cymysg ar y glannau. Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw a gweithredu ein dyfrffyrdd, ac mae'n sail i fuddsoddi ynddynt yn y dyfodol i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu eu mwynhau.

Mae ein cynlluniau busnes yn rhai tymor hir ac rydym bob amser yn edrych am ffyrdd arloesol o sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn parhau'n angorau perthnasol i'w cymunedau.

## Cyflogaeth Gynaliadwy

Er mwyn cyfrannu at economi gynaliadwy, rydym yn credu mewn cyflogaeth deg a buddsoddi mewn hyfforddiant ac addysg.

Mae dros 1,600 o bobl ymroddgar yn gweithio i Glandŵr Cymru mewn swyddi amrywiol, o beirianneg ac ecoleg i reoli treftadaeth a datblygu eiddo. Er mwyn sicrhau bod ein staff yn gallu cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng bywyd a gwaith, rydym yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg.

Rydym wedi ymrwymo hefyd i hyfforddiant parhaus ein staff, yn ogystal â darparu lleoliadau hyfforddi o safon ar ffurf prentisiaethau a hyfforddeiaethau.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Canal & River Trust yn parchu urddas ei holl weithwyr cyflogedig. Rydym yn croesawu'r gwahaniaethau rhwng unigolion ac yn ceisio creu amgylchedd sy'n gwerthfawrogi a pharchu cyfraniad pawb.

Ein nod yw cael gweithlu sy'n cynrychioli poblogaeth amrywiol Prydain ac yn adlewyrchu'r cymunedau lleol rydym yn gweithredu ynddynt. Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cyfle cyfartal ac rydym yn cydnabod bod y gwaith o sicrhau amrywiaeth a chydraddoldeb yn broses barhaus sy'n gofyn am ddatblygiad a chyfraniad parhaus gweithwyr cyflogedig ac eraill rydym yn gweithio gyda nhw.

# Adnoddau Naturiol

Fel Ymddiriedolaeth, rydym bob amser yn ceisio gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a chymdeithasol. Credwn fod ein dyfrffyrdd yn gyfle unigryw i gysylltu pobl â'u hanes a chyda natur. Mae camlesi ac afonydd yn ganolfannau perffaith ar gyfer adfywio cynaliadwy, gyda ffocws ar lunio lleoedd, darparu hafan ar gyfer byd natur a rhoi bywyd newydd i'n treftadaeth adeiledig.

Mae ein camlesi a'n hafonydd yn dibynnu ar gyflenwad digonol o ddŵr, sy'n debygol o gael ei effeithio gan y newid yn yr hinsawdd a'r galw cynyddol am ddefnyddiau eraill. Oherwydd hyn, rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd diogelu ein hadnoddau naturiol a'u defnyddio nhw mewn ffordd gyfrifol a doeth.

Rydym yn arbennig o falch o'n proses heb ei hail o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â materion tynnu dŵr ar Afon Wysg. Mewn partneriaeth â Sefydliad Afonydd Wysg a Gwy, Dŵr Cymru a Dŵr Hafren Trent, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr, llwyddwyd i gytuno ar lefelau tynnu dŵr cynaliadwy, gan sicrhau y gallai anghenion economaidd a chymdeithasol gael eu diwallu tra'n gwella statws cadwraeth yr afon.

**Yn y dyfodol, byddwn yn ceisio lleihau ein heffaith ar adnoddau naturiol trwy:**

- Barhau i gynnal a rheoli ein camlesi a'n hafonydd i leihau'r defnydd o ddŵr
- Parhau i ddatblygu ein systemau monitro fel ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyflenwadau dŵr
- Pennu ffyrdd newydd o leihau ein defnydd o ynni, yn enwedig trydan (ar gyfer pwmpio dŵr) a thanwydd (ar gyfer ein cerbydau)
- Datblygu ffynonellau newydd o ynni gwyrdd, yn enwedig microgynhyrchu gan ddefnyddio dulliau cynhyrchu trydan dŵr a gwynt
- Paratoi, cyhoeddi ac adrodd ar Gynllun gwyrdd Canal & River Trust

# Yr Amgylchedd

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i warchod amgylchedd y dyfrffyrdd o ddifrif. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

## Gwarchod ein hamgylchedd naturiol – sicrhau nad ydym yn gwneud colled net o leiaf

Bydd defnyddio arfarniadau amgylcheddol a threftadaeth yn rheoli ein gwaith – mae o leiaf 1,500 o arfarniadau'n cael eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfer ein gweithgareddau, yn amrywio o brosiectau untro i raglenni cenedlaethol neu dasgau rheolaidd. Mae'r arfarniadau hyn yn sicrhau nad yw ein gwaith yn achosi difrod gormodol, diangen i'r amgylchedd.

Mae llawer o'r effeithiau yn deillio o drydydd partïon, defnyddwyr a chymdogion neu achosion naturiol – rydym yn cofnodi dros 2,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol bob blwyddyn, planhigion ymledol, tipio anghyfreithlon a llygredd dŵr yn bennaf. Ein rôl yw helpu i reoli digwyddiadau yn y tymor byr a chynllunio ymatebion mwy strategol i ddatrys problemau (e.e. erlid y rhai sy'n gyfrifol am dipio anghyfreithlon, helpu i ddatblygu cynlluniau chwyn ymledol ac ati) a helpu i adennill costau / sicrhau incwm i fodloni gofynion.

Rydym hefyd yn defnyddio Dangosydd Perfformiad Amgylcheddol i nodi perfformiad Canal & River Trust.

## Gwella asedau'r amgylchedd naturiol

Ers dod yn Ymddiriedolaeth, rydym wedi bod yn canolbwyntio mwy ar wella ein hamgylchedd trwy ein gwaith, ein gwaith gwirfoddoli ar y dyfrffyrdd a'n cyllid allanol. Mae enghreifftiau'n cynnwys creu cartrefi newydd i adar, ystlumod a dyfrgwn, gosod ymyl cyrs i ddiogelu'r lan a gwella ein gwrychoedd a rheoli llystyfiant arall.

Mae'n gallu bod yn anodd cynnal rhywfaint o'n gwerth amgylcheddol gan ei fod yn bodoli ochr yn ochr â gwahanol ddefnyddiau a newidiadau mewn gweithgareddau. I reoli hyn, rydym wedi bod yn datblygu ein harolygon o werth presennol i asesu'r llefydd gorau i wneud gwelliannau.



# Y Cynllun Gwyrdd

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein defnydd o adnoddau a lleihau ein hôl-troed $CO_2$. I roi'r ymrwymiad hwn ar waith, mae ein Cynllun Gwyrdd yn cael ei arwain ar Lefel Cyfarwyddwr. O ganlyniad, dyfarnwyd Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon i Glandŵr Cymru, sy'n cydnabod ein cyflawniadau o ran lleihau ein hôl-troed carbon. Mae'r dyfarniad yn cydnabod i ni leihau ein hallyriadau 13.6 y cant rhwng 2012 a 2014, sy'n gyfwerth â gostyngiad blynyddol o tua 3,000 tunnell o $CO_2$.

Mae ein proses gynaliadwyedd yn cynnwys parhau i esblygu a datblygu'r Cynllun Gwyrdd er mwyn parhau i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac i wneud ein gweithredoedd o ddydd i ddydd yn fwy effeithlon. Gall y Cynllun gael ei addasu fesul cam i sicrhau bod ein polisïau'n gyfredol ac i ddysgu o arfer gorau sefydliadau eraill.

**Mae'r Cynllun Gwyrdd yn cynnwys pum maes allweddol:**

- Lleihau'r defnydd o ynni
- Milltiredd cerbydau a theithio
- Caffael cynaliadwy
- Lleihau gwastraff ac ailgylchu
- Budd amgylcheddol a chyhoeddus

Dysgwch fwy yma: **https://canalrivertrust.org.uk/about-us/environment/the-green-plan**

# Lleihau'r Defnydd o Ynni

Rydym wedi gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i gynhyrchu Cynllun Rheoli Carbon gyda'r targed uchelgeisiol o leihau ein hallyriadau carbon 25% erbyn 2015 (yn seiliedig ar waelodlin 2009/10). Yn 2010, gwariodd Glandŵr Cymru £4.3 miliwn ar drydan a £0.2 miliwn ar nwy. Arweiniodd y defnydd o drydan yn unig at allyriadau o tua 19,000 tunnell o $CO_2$. Fodd bynnag, rydym wedi sicrhau gostyngiad yn ein defnydd o drydan o 36 GWH i 25.8 GWH rhwng 2010 a 2013/14 ac, erbyn hyn, mae 100% o'r trydan rydym yn ei brynu yn drydan adnewyddadwy. Mae'r gostyngiad yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno meddalwedd rheoli ynni a thechnoleg newydd, megis goleuadau LED mewn swyddfeydd.

**Camau nesaf**

Byddwn yn:

- Parhau i leihau ein defnydd o ynni a'n hôl-troed $CO_2$
- Adeiladu ar Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon – gan sicrhau gwelliant o flwyddyn i flwyddyn
- Defnyddio meddalwedd rheoli ynni i lywio buddsoddiad a dylanwadu ar ddealltwriaeth ac ymddygiad staff.
- Archwilio technolegau modern – gan eu cyflwyno os yw hynny'n ymarferol ac yn gwneud synnwyr economaidd pan fo hyn yn ategu amgylchedd unigryw'r ddyfrffordd sydd o dan ein rheolaeth.
- Symud tuag at >95% o drydan yn cael ei fesur gan fesurydd deallus a >95% o nwy
- Parhau i esblygu a buddsoddi mewn technolegau modern sy'n defnyddio ynni'n effeithlon

# Milltiredd Cerbydau a Theithio

Rydym yn cydnabod bod ein gwaith cymhleth a daearyddol amrywiol yn cael effaith sylweddol ac rydym wedi ymrwymo i leihau ein milltiredd, i weithredu'n fwy effeithlon ac i ddefnyddio dulliau teithio sy'n fwy effeithlon ac ecogyfeillgar pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Rydym yn falch o fod wedi lleihau ein milltiredd ceir o 5.3 miliwn o filltiroedd yn 2010 i 4.7 miliwn o filltiroedd yn 2013 / 14, yn rhannol oherwydd ein cynllun teithio gwyrdd sy'n annog ein staff i yrru llai a gyrru'n ddoeth. I adeiladu ar y llwyddiant hwn, rydym ni wedi gosod terfyn o tua 20-25% ar gyfyngiadau $CO_2$ cerbydau, rydym wedi prynu'r faniau trydan cyntaf o'u math yn y DU a phrynu'r cerbydau masnachol gwyrddaf, mwyaf effeithlon lle bo hynny'n bosibl. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau y bydd 20% o'n cerbydau masnachol yn cael eu pweru gan drydan o fewn 5 mlynedd.

Fodd bynnag, credwn fod modd i ni wneud mwy. Felly, i geisio lleihau'r defnydd o geir, rydym wedi cyflwyno cyfleusterau fideo-gynadledda eang ac rydym yn parhau i ddefnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â hyrwyddo cerdded a beicio.

# Ynni Adnewyddadwy

## Gwynt

Ar hyn o bryd, mae gennym ni un tyrbin gwynt yn Boddington ac mae prosiect arall yn cael ei adeiladu yn Sharpness. Amcangyfrifir bod Boddington yn cynhyrchu 1.142 o oriau megawat o drydan carbon isel y flwyddyn (yn gyfwerth â defnydd blynyddol cyfartalog 268 o gartrefi yn y DU).

## Dŵr

Rydym yn gweithio gydag amryw o ddatblygwyr ynni dŵr i adeiladu cynlluniau ynni dŵr ar ein coredau. Yn ogystal â chynhyrchu ynni carbon isel gan ddefnyddio ein hasedau, byddwn yn cynhyrchu incwm blynyddol dros y 40 mlynedd diwethaf ac yn adeiladu llwybrau pysgod hanfodol. Ar hyn o bryd, mae gennym un cynllun ynni dŵr ar waith ac mae dau yn cael eu hadeiladu. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sawl safle arall.

## Gwresogi ac Oeri

Rydym hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o ynni thermol ein dyfrffordd i wresogi ac oeri adeiladau. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi cynnwys ein dyfrffyrdd yn eu map gwres sy'n dangos y ffynonellau dŵr a'u potensial i ddarparu ynni gwres ar gyfer pympiau gwres o'r dŵr. Mae defnyddio'r ynni thermol ar gyfer gwresogi ac oeri yn ateb carbon isel sy'n cyfrannu at dargedau Llywodraeth y DU sy'n ceisio lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU o leiaf 80% (o waelodlin 1990) erbyn 2050. Mae gennym ni hefyd amryw o brosiectau oeri/gwresogi eraill ar ein camlesi, megis Mailbox yn Birmingham a datblygiad preswyl Dollar Bay yn Docklands (sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd).




# Lleihau Gwastraff ac Ailgylchu

Ni sy'n gyfrifol am waredu gwastraff o swyddfeydd, cyfleusterau gwasanaethau cwsmeriaid a gwaith adeiladu a charthu.

Rydym yn sylweddoli bod rheoli gwastraff yn gallu cael effaith fawr ar yr amgylchedd ac rydym yn awyddus i weithredu'n fwy cynaliadwy a sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu gwneud yr un fath.

I wella, rydym yn gweithio gyda staff, contractwyr a rhanddeiliaid i leihau cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi trwy leihau'r gwastraff rydym yn ei gynhyrchu a chynyddu ein cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu.

Ein prif nod yw dargyfeirio 90% o wastraff cwsmeriaid o safleoedd tirlenwi a ffrydiau gwastraff sgipiau.

**Camau nesaf**

Byddwn yn cyflwyno cynllun gwella tri cham ar gyfer rheoli gwastraff yn ystod 2015 – 2016. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn ceisio sicrhau ardystiad gan yr Ymddiriedolaeth Garbon am leihau gwastraff / rheoli gwastraff i'w ychwanegu at ein hardystiad ynni.

- **Cam 1:** Ymestyn ein gallu / arlwy ailgylchu mewn 82 o safleoedd gwastraff cwsmeriaid (Haf 2015)
- **Cam 2:** Ehangu'r gwaith ailgylchu mewn iardiau a depos (Hydref 15 / Gaeaf 16)
- **Cam 3:** Meincnodi gwastraff nad yw'n cael ei drafod trwy ein contractau cenedlaethol a thargedu gwelliant.